



**Theatr
Genedlaethol
Cymru**

Brîff ar gyfer rôl

Cadeirydd Bwrdd yr Ymddiriedolwyr,

Theatr Genedlaethol Cymru

Awst 2018

Cyflwyniad

Mae Theatr Genedlaethol Cymru yn dymuno penodi Cadeirydd newydd i arwain y Bwrdd drwy gyfnod cyffrous i'r cwmni.

Ar ôl pum mlynedd lwyddiannus wrth y llyw mae ein Cadeirydd presennol Gwerfyl Pierce Jones yn bwriadu camu'n ôl ym mis Rhagfyr eleni. O dan gadeiryddiaeth Gwerfyl, mae'r cwmni wedi mynd o nerth i nerth, a'n bwriad wrth wynebu cyfnod newydd yw parhau i ddarparu cynyrchiadau theatrig o'r safon uchaf, cryfhau sefydlogrwydd a gwytnwch y cwmni a chwarae ein rhan i ddatblygu sector y theatr yng Nghymru.

Yn ogystal â darparu arweiniad i Fwrdd yr Ymddiriedolwyr, un o brif orchwylion y Cadeirydd newydd fydd llywio'r broses o benodi Cyfarwyddwr Artistig, gan fod tymor y Cyfarwyddwr presennol yn dod i ben ym mis Mai 2021.

Y Cwmni

Theatr Genedlaethol Cymru yw'r cwmni theatr cenedlaethol iaith Gymraeg. Rydym yn creu profiadau theatr beiddgar, uchelgeisiol, cynhwysol a chofiadwy wrth galon ein cymunedau mewn canolfannau theatr traddodiadol a lleoliadau annisgwyl ledled Cymru a thu hwnt.

Sefydlwyd y cwmni yn 2003 a symudodd i gartref newydd pwrpasol yn Y Llwyfan, Caerfyrddin, yn 2008. Penodwyd ein Cyfarwyddwr Artistig presennol, Arwel Gruffydd, yn 2011, ac adnewyddwyd ei gytundeb am bum mlynedd arall yn 2016. Y Cyfarwyddwr Artistig yw Prif Weithredwr y Cwmni. Y Cyfarwyddwr Artistig a'r Cyfarwyddwr Gweithredol, Angharad Jones Leefe, sy'n ffurfio Uwch Dîm Rheoli'r cwmni. Y Cyfarwyddwr Gweithredol yw Ysgrifennydd y Cwmni.

Mae'r cwmni yn Elusen gofrestredig (Rhif 1106032) ac yn Gwmni Cyfyngedig drwy Warant (Rhif 4784488). Mae'n aelod o Bortffolio Celfyddydol Cymru a ariennir gan Gyngor Celfyddydau Cymru. Cyngor Celfyddydau Cymru yw prif noddwr y cwmni ac yn 2018/19 derbyniom grant refeniw o £1,029,567.

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf cafwyd arweiniad cryf a chefnogaeth gan y Bwrdd. Rydym hefyd wedi elwa o Raglen Wytwnch Cyngor Celfyddydau Cymru sydd wedi ein galluogi i

fanteisio ar gyngor arbenigol i fireinio a datblygu ein cynlluniau strategol wrth lunio cynllun busnes newydd uchelgeisiol ar gyfer y blynyddoedd nesaf.

Fel cwmni theatr cenedlaethol mae'n hanfodol ein bod yn cynhyrchu gwaith sy'n uchelgeisiol, yn heriol, ac yn gwthio ffiniau'r theatr Gymraeg sydd hefyd yn berthnasol i fywydau pobl Cymru heddiw.

Mae uchafbwyntiau diweddar y cwmni yn cynnwys:

- **Estron**, gan Hefin Robinson, drama fuddugol cystadleuaeth y Fedal Ddrama yn Eisteddfod Genedlaethol Sir Fynwy a'r Cyffiniau 2016;
- **Y Tad**, cyfieithiad poblogaidd Geraint Løvgreen o'r ddrama arobryn Ffrangeg *Le Père*;
- **Hollti**, drama gair-am-air newydd a beiddgar oedd yn ymateb i gynlluniau i adeiladu atomfa newydd ar Ynys Môn;
- **Y Tŵr**, opera gyfoes gan Guto Puw a Gwyneth Glyn mewn cyd-gynhyrchiad â Music Theatre Wales;
- **Macbeth**, cynhyrchiad safle benodol yng Nghastell Caerffili o gyfieithiad arbennig y diweddar Gwyn Thomas, a ddarlledwyd yn fyw i 11 o ganolfannau ar draws Cymru fel rhan o fenter newydd **Theatr Gen Byw**;
- **Mrs Reynolds a'r Cena Bach**, cyfieithiad newydd gan Meic Povey o ddrama gyfoes Gary Owen, *Mrs Reynolds and the Ruffian*;
- **Chwalfa**, oedd yn cynnwys dros 50 o aelodau o gast cymunedol ar lwyfan Theatr Bryn Terfel, Pontio, ac a enillodd y wobr am y Cynhyrchiad Gorau yn y Gymraeg yng ngwobrau Theatr Cymru 2016;
- **Dawns Ysbrydion** gydag Eddie Ladd, a oedd yn nodi 50 mlynedd ers boddi Capel Celyn
- **Nansi**, drama newydd yn dathlu bywyd y delynores hudolus Nansi Richards.

Mae'r cwmni hefyd yn cynnig gweithdai a rhaglen gynhwysfawr o waith gyda chymunedau, ac yn darparu adnoddau ar gyfer y sector theatr yng Nghymru.

Prif flaenoriaethau strategol y cynllun busnes newydd yw:

- Cynyddu ein cynulleidfa, boed hynny'n fynychwyr perfformiadau neu'n ymgyfranogwyr, ac erbyn 2022 ein bod yn cyrraedd 30% yn fwy o bobl nag yn 2018. Er mwyn cyrraedd y nod hwn byddwn yn gweithredu'r canlynol:
 - Strategaeth Canolfannau a Theithio
 - Strategaeth Datblygu a Rhaglennu Artistig
 - Strategaeth Marchnata a Chyfathrebu
 - Strategaeth Cyfranogi a Datblygu Cynulleidfa
- Cynyddu incwm o ffynonellau eraill a lleihau'r ddibyniaeth ar arian cyhoeddus. Er mwyn cyrraedd y nod hwn byddwn yn:
 - Canolbwyntio ar ddatblygu partneriaethau
 - Gweithredu Strategaeth Datblygu Nawdd.

Strwythur a Llywodraethu

Mae Bwrdd Theatr Genedlaethol Cymru yn cynnwys aelodau o gefndiroedd amrywiol sy'n dod â gwahanol fathau o arbenigedd a phrofiadau i'w rôl. Aelodau'r Bwrdd yw:

- Gwerfyl Pierce Jones (Cadeirydd presennol), cyn Brif Weithredwr Cyngor Llyfrau Cymru, Dirprwy Ganghellor Prifysgol Aberystwyth
- Catrin Beard (Cadeirydd y Pwyllgor Artistig), awdur a darlledwr a chyn-athrawes ddrama
- Carys Edwards, cyn Bennaeth Adran Ddrama Ysgol Maes y Gwendraeth, arholwr drama CBAC a Chyfarwyddwr Theatr Ieuencid Menter Cwm Gwendraeth
- Arwel Edwards, cyfreithiwr sy'n arbenigo mewn gwaith eiddo masnachol
- Gwenda Griffith (Cadeirydd y Pwyllgor Marchnata a Chyfranogi), cynhyrhydd teledu a chyn gyfarwyddwr-berchennog cwmni Fflic
- Catrin Jones Hughes, Pennaeth Ysgol Bodedern a chyn-athrawes ddrama
- Elwyn Jones, cyn Brif Weithredwr Cyngor Llyfrau Cymru
- Gwyn Jones (Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid a Materion Gweithredol), cyn Gyfarwyddwr Adnoddau Corfforaethol Cyngor Sir Ceredigion
- Alan Gwynant, cyn Gyfarwyddwr Technegol Eisteddfod Genedlaethol Cymru ac arbenigwr lechyd a Diogelwch

- Catherine Rees, Uwch Reolwr Materion Corfforaethol ac Adnoddau Dynol y Coleg Cymraeg Cenedlaethol a chyn Ddirprwy Brif Weithredwr Menter a Busnes
- Elfed Roberts, Cyn Brif Weithredwr Eisteddfod Genedlaethol Cymru (o Hydref 2018)
- Gwyn Williams, Cyfarwyddwr Cyfathrebu S4C a chyn Gyfarwyddwr Cyfathrebu Comisiynydd y Gymraeg
- Meilir Rhys Williams, actor proffesiynol
- Arwel Gruffydd, Cyfarwyddwr Artistig Theatr Genedlaethol Cymru (aelod *ex-officio*)

Strwythur y Bwrdd

Mae proses o adolygu a diweddarau cyfansoddiad y cwmni ar waith ar hyn o bryd. Y bwriad yw y bydd y Cadeirydd a'r holl Ymddiriedolwyr yn cael eu hethol am gyfnod o 3 blynedd, gyda'r posibilrwydd o ail dymor o 3 blynedd. Ar hyn o bryd mae modd cael hyd at 15 aelod ar y Bwrdd ar unrhyw adeg.

Mae'r Bwrdd yn cyfarfod bedair gwaith y flwyddyn (fel arfer ym mis Chwefror, Mehefin, Medi a Rhagfyr) ar ddydd Sadwrn. Cynhelir dau o'r pedwar cyfarfod yng Nghaerfyrddin a'r ddau arall mewn lleoliadau ar draws Cymru. Mae tri phwyllgor yn gwasanaethu'r Bwrdd – Artistig; Marchnata a Chyfranogi; Cyllid a Materion Gweithredol. Mae'r pwyllgorau yn cyfarfod ar yr un diwrnod yn y cyfnod sy'n arwain at bob cyfarfod llawn o'r Bwrdd. Aelodau o'r Bwrdd sy'n cadeirio'r Pwyllgorau. Mae croeso i'r Cadeirydd fynychu cyfarfodydd y pwyllgorau unigol hyn.

Y Bwrdd sy'n gyfrifol am bennu a chymeradwyo prif nodau strategol y cwmni; monitro cynnydd rheolaidd; a rheoli risgiau ariannol, cyfreithiol, gweithredol, ac unrhyw risg i enw da'r cwmni.

Mae aelodau'r Bwrdd yn weithredol rhwng cyfarfodydd yn darparu arbenigedd, cefnogaeth a chlust barod i'r tîm rheoli.

Y Rôl

Mae Theatr Genedlaethol Cymru yn edrych am unigolyn sydd â dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth dda o Gymru a'i diwylliant a'r celfyddydau ac sy'n fodlon ymrwymo i arwain

datblygiad strategol y cwmni. Dyma gyfle i wneud cyfraniad o bwys wrth inni greu profiadau theatr o'r radd flaenaf yn y Gymraeg.

Bydd disgwyl i'r ymgeisydd llwyddiannus:

- Fod yn eiriolydd a llysgennad i'r cwmni gydag arianwyr, rhanddeiliaid a'r cyfryngau
- Hybu gwerthoedd y Cwmni
- Creu a meithrin perthynas weithio ymddiriedol ac adeiladol gyda'r Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwr Gweithredol
- Rheoli a chadeirio cyfarfodydd y Bwrdd yn effeithiol
- Hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth a sicrhau eu bod yn cael eu gweu i mewn i gynlluniau'r cwmni

Bydd yr unigolyn a benodir yn:

- Deall llywodraethu elusen
- Meddu ar gysylltiadau cryf gyda rhanddeiliaid allweddol yng Nghymru
- Deall strwythurau cyllido Cymru
- Gallu ymgysylltu gyda gwleidyddion a swyddogion Llywodraeth Cymru ar y lefel uchaf

Disgwylir ymrwymiad amser o un i ddau ddiwrnod y mis, er y gallai hyn gynyddu ar adegau e.e. mewn cyfnod o newid sylweddol neu wrth benodi staff i'r Uwch Dîm Rheoli. Mae rôl y Cadeirydd yn ddi-dâl ond telir unrhyw gostau rhesymol.

Dyletswyddau

Cadeirydd:

- Darparu arweiniad i'r Bwrdd er mwyn sicrhau ei fod yn gweithredu yn unol â'i bwerau ac yn darparu cyfeiriad strategol clir a chadarn i'r cwmni
- Cadeirio cyfarfodydd y Bwrdd yn effeithiol gan sicrhau gwrandawriad teg a chyfraniad addas gan y cyfarwyddwyr eraill

- Sicrhau bod Theatr Genedlaethol Cymru yn cydymffurfio â'r egwyddorion yn ein dogfennau cyfansoddiadol, y gyfraith elusennol ac unrhyw gyfraith neu reoliadau perthnasol, gan gynnal safonau uchel o uniondeb a chywirdeb
- Sicrhau bod unrhyw wrthdaro buddiannau yn cael ei reoli yn unol â'r cyfansoddiad ac egwyddorion Nolan
- Hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth ar lefel Bwrdd a Chwmni a sicrhau eu bod yn cael eu gwau i mewn i gynlluniau strategol fel bod y cwmni a'i waith yn adlewyrchu ac yn cynrychioli ein cymunedau amrywiol
- Arwain y Bwrdd wrth osod strategaeth gorfforaethol y cwmni, gyda chyfeiriad clir ac amcanion a thargedau
- Sicrhau adolygiad blynyddol gan y Bwrdd o amcanion strategol y cwmni a gwerthuso'r perfformiad yn erbyn targedau
- Sicrhau bod perthynas y cwmni gydag unrhyw arianwyr yn cael ei chynnal mewn modd sy'n magu hyder yng ngallu'r cwmni i reoli a defnyddio arian cyhoeddus, neu arian o ffynonellau eraill, mewn modd cyfrifol
- Ymgysylltu gyda gwleidyddion a swyddogion Llywodraeth Cymru ar y lefel uchaf
- Defnyddio cysylltiadau a rhwydweithiau er mwyn sicrhau partneriaethau newydd a chyfleoedd i hybu gwaith y cwmni, mewn cydweithrediad â'r Uwch Dîm Rheoli
- Darparu cefnogaeth strategol i'r Uwch Dîm Rheoli mewn unrhyw drafodaethau ar y lefel uchaf gyda Chyngor Celfyddydau Cymru, a, phan fo'n briodol, Llywodraeth Cymru a phartneriaid eraill
- Creu a meithrin perthynas weithio ymddiriedol ac adeiladol gyda'r Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwr Gweithredol, gan drafod gyda hwy yn gyson
- Gwerthuso perfformiad y Cyfarwyddwr Artistig yn flynyddol
- Arwain y Bwrdd wrth benodi Cyfarwyddwr Artistig

Ymddiriedolwyr:

- Sicrhau bod Theatr Genedlaethol Cymru yn cyflawni ei amcanion elusennol fel y'i diffinnir yn ei ddogfennau cyfansoddiadol
- Hybu gwerthoedd y cwmni
- Sicrhau bod Theatr Genedlaethol Cymru yn defnyddio ei adnoddau i bwrpas ei amcan elusennol yn unig

- Diogelu enw da Theatr Genedlaethol Cymru
- Sicrhau bod Theatr Genedlaethol Cymru yn cael ei weinyddu a'i reoli'n effeithiol
- Sicrhau hyfywedd ariannol y cwmni
- Diogelu a rheoli asedau'r elusen a sicrhau bod y cronfeydd ariannol yn cael eu buddsoddi yn y modd cywir
- Bod yn eiriolwr a llysgennad i'r cwmni gydag amrywiaeth eang o randdeiliaid
- Cynnal safonau uchaf llywodraethu corfforaethol gan arddel a dilyn Saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus (Nolan) yn bersonol
- Yn ogystal â'r dyletswyddau statudol uchod defnyddio unrhyw sgiliau, profiad neu arbenigedd i gynorthwyo'r Bwrdd i wneud penderfyniadau da.

Manyleb yr Unigolyn

- Gweledigaeth strategol
- Y gallu i wneud penderfyniadau addas yn annibynnol
- Y gallu i feddwl yn greadigol
- Parodrwydd i leisio barn
- Dealltwriaeth o gyfrifoldebau cyfreithiol ymddiriedolwr a pharodrwydd i'w derbyn
- Y gallu i weithio fel aelod o dîm
- Sgiliau cyfathrebu cynhwysfawr, gan gynnwys arwain trafodaethau, negodi a bod yn llefarydd cyhoeddus
- Parodrwydd i neilltuo'r amser ac ymdrech priodol
- Ymrwymiad i werthoedd y cwmni ac i Saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus (Nolan): anhunanoldeb, didwylledd, gwrthrychedd, atebolrwydd, gonestrwydd, bod yn agored, arweinyddiaeth

Dylai ymgeiswyr feddu ar brofiad ar lefel uchel mewn dau neu fwy o'r meysydd canlynol:

- Theatr/Celfyddydau
- Codi arian
- Rheolaeth a chynllunio ariannol
- Arbenigedd cyfreithiol
- Adnoddau dynol a rheolaeth personél

- Cysylltiadau cyhoeddus a marchnata
- Y cyd-destun gwleidyddol ac economaidd ehangach yng Nghymru a thu hwnt.

Sut i ymgeisio

Gwahoddir ceisiadau ysgrifenedig ar ffurf CV a llythyr yn egluro pam y byddech yn dymuno ymgymryd â rôl Cadeirydd y Bwrdd ac yn rhestru eich sgiliau a'ch profiad perthnasol. Dylid anfon ceisiadau drwy e-bost at Angharad Jones Leefe, Ysgrifennydd y Bwrdd / Cyfarwyddwr Gweithredol ar angharad.leefe@theatr.com

Os hoffech drafod y cyfle hwn ymhellach mae croeso i chi gysylltu â Chadeirydd Pwyllgor Artistig y cwmni, Catrin Beard: catrin.beard@btinternet.com neu 07775 722850.

Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw 5yp ar 28 Medi 2018.

Cynhelir cyfweiliadau yn ystod yr wythnos sy'n dechrau 22 Hydref 2018 gyda'r cyfarfod Bwrdd cyntaf ar 8 Rhagfyr 2018.

Atodiadau

Adroddiad a Chyfrifon 2016/17

Ffurflen Monitro Cydraddoldeb

Rhennir y Cynllun Busnes gyda'r ymgeiswyr sy'n cyrraedd y rhestr fer.